PWYSIG!
DIOGELU'CH PEIRIANT

Pwysig: Mae'r nodyn diogelwch hwn yn tynnu sylw at rywbeth a allai fod yn beryglus ac achosi niwed corfforol ac mae'n effeithio ar y gyriant CD ROM sydd wedi'i osod mewn cyfrifiaduron a gynhyrchwyd rhwng Mehefin 1999 a Gorffennaf 2001. Mae'n effeithio ar gyfrifiaduron a wnaed gan nifer o gwmnïau, nid dim ond RM. Mae'n egluro'r broblem, yn esbonio beth ddylech chi ei wneud nesaf, ac yn ateb eich cwestiynau.
Dyma bwyntiau allweddol y rhybudd hwn:

- Peidiwch â defnyddio disgiau CD ROM sydd wedi cracio.
- Os defnyddir disgiau CD ROM wedi cracio mewn gyriant CD ROM cyflym gallant fod yn beryglus.
- Mae hyn yn effeithio ar gyfrifiaduron a wnaed gan sawl cwmni.
- Rydym wedi canfod pa gyfrifiaduron RM y mae hyn yn effeithio arnyn nhw.

Beth yw'r broblem?

Rydym wedi canfod fod rhai gyriannau CD ROM cyflym (cyflymder 48X neu uwch), mewn amgylchiadau eithriadol o brin, yn gallu bod yn beryglus os defnyddir nhw gyda disgiau CD ROM sydd â chraciau bach ynddyn nhw. Gall y ddisg gael ei niweidio'n waeth neu dorri'n deilchion ac, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, gall darnau o'r ddisg gael eu saethu'n gyflym iawn drwy gaead blaen y gyriant. Gallai hyn achosi anaf corfforol difrifol. Rydym wedi cadarnhau mai **dim ond pan ddefnyddir disg CD ROM diffygiol yn y gyriant CD ROM y gall y broblem hon ddigwydd.**

Ar ba beiriannau mae hyn yn effeithio?

Credwn fod y broblem hon yn effeithio ar gyfrifiaduron gan wneuthurwyr eraill hefyd, ac os ydych yn poeni dylech siarad â'ch cyflenwyr eraill.

Beth yw'r ateb i'r broblem?

Rydym wedi cadarnhau mai **dim ond pan ddefnyddir disg CD ROM diffygiol yn y gyriant CD ROM y gall y broblem ddigwydd.** Dyma'n hargymhellion ni:

- **Dylid archwilio pob CD ROM cyn eu defnyddio bob tro, i sicrhau nad oes dim craciau ynddynt.** Os ydyn nhw wedi cracio ni ddylid eu defnyddio mewn unrhyw yriant CD ROM cyflymder 48X neu uwch.

  Dylech edrych yn arbennig ar y plastig clir ar ymyl fewnol y ddisg – craciau yn y fan yma sy'n peri i ddisgiau dorri'n deilchion.

- Mae'n fwy tebygol y ceir craciau mewn disgiau o ansawdd gwael, a welir yn llawer mwy cyffredin y dyddiau hyn yn ein tyb ni, ac sydd wedi'u gwneud o ddefnyddiau mwy brau. Dyma'n hargymhellion ni ar gyfer gofalu am CDiau:
  - Tynnwch y CD o'r cyfrifiadur ar ôl ei defnyddio bob tro.
  - Sicrhewch eich bod yn cadw pob CD yn y cas y daeth ynddo.
  - Sicrhewch eich bod yn cadw'r CD allan o olau'r haul, a heb fod yn agos at ffynonellau gwres.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Dim ond am gyfrifiaduron RM y gallwn ni roi cyngor. Yng nghyfrifiaduron RM mae hyn yn effeithio ar rai gyriannau cyflymder 48X a 52X, ond nid pob un. Nid yw'r broblem hon yn effeithio ar unrhyw gyfrifiadur RM a wnaed ers diwedd Gorffennaf 2001, ac nid yw'n effeithio ar unrhyw gyfrifiaduron RM NoteBook. Dylech ddweud yn syth wrth bawb sy'n defnyddio cyfrifiaduron RM gyda gyriant CD ROM cyflym y dylent, bob tro y byddant yn rhoi CD ROM yn y gyriant, archwilio'r ddisg i wneud yn siwr nad oes craciau ynddi. **Ni ddylid defnyddio unrhyw ddisg sydd â chrac ynddi.**

Ar faint o frys y mae angen imi weithredu?
Rhaid ichi sicrhau y rhoddir y neges am archwilio disgiau CD ROM i bawb sy'n defnyddio cyfrifiaduron, a gweithredu arni'n syth, oherwydd gallai parhau i ddefnyddio disgiau CD ROM wedi cracio mewn gyriannau CD ROM cyflym achosi anaf difrifol.

Beth wnaf fi os dof o hyd i ddisg CD ROM wedi cracio?
Dylech roi'r gorau yn syth i'w defnyddio mewn gyriannau CD ROM cyflym.

Dylech gysylltu â chyflenwr gwreiddiol y ddisg CD ROM i holi ynghylch cael un arall yn ei lle. Os mai RM oedd y cyflenwr gwreiddiol, gallwch gael manylion am archebu disgiau eraill ar ein gwefan (www.rm.com/safety).

Oes angen imi roi'r gorau'n gyfangwbl i ddefnyddio disgiau CD ROM yn fy nghyfrifiaduron?
Na, dim ond ichi sicrhau y caiff pob CD ROM ei harchwilio am graciau cyn pob defnydd. Hefyd, dim ond ar yriannau CD ROM 48X neu gyflymach y mae hyn yn effeithio. Rydym wedi darparu sticeri ichi eu rhoi ar flaen eich gyriannau CD ROM, i atgoffa defnyddwyr y dylent bob amser archwilio pob disg CD ROM cyn ei defnyddio.

Ydi RM yn ymchwilio ymhellach i hyn?
Ydym, ar y cyd â gwneuthurwyr y gyriannau rydym yn gwneud ymchwil drwyadl i ddiogelwch gwahanol yriannau CD ROM a chyfryngau CD ROM. Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth cyn gynted ag y bydd hyn wedi'i gwblhau. Bydd yr holl wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan (www.rm.com/safety), ac ar ben hynny, lle bo unrhyw gyngor penodol pellach am y cyfrifiaduron RM a ddefnyddir yn eich sefydliad chi, fe ysgrifennwn atoch yn uniongyrchol gyda'r wybodaeth.

Sut alla i gael gwybod mwy?
Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth helaeth ar ein gwefan yn www.rm.com/safety. Mae hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth gefndir berthnasol, dadansoddiadau technegol manwl, ac adran Gwestiynau ac Atebion a gaiff ei diweddaru'n gyson. Gallwch roi rhif cyfres unrhyw gyfrifiadur RM i mewn hefyd i weld a yw'r broblem hon yn berthnasol iddo.

Sut olwg sydd ar CD wedi cracio?
Mae'r llun yn dangos rhan o ddisg CD ROM gyda chrac bach. Dyma enghraifft o'r math o grac y dylech chwilio amdano ar eich disgiau. Does dim angen ichi daflu cryno-ddisgiau sydd â dim ond crafiadau ysgafn ar arwyneb metelig y CD.

Os am wybodaeth bellach, mae croeso ichi ffonio'n Llinell Gyngor yn ac am ddim ar 08709 202202.

RM plc, New Mill House, 183 Milton Park, Abingdon, Oxon, OX14 4SE
Llinell Gyngor: 08709 202202 Ffacs: 01235 826893